Trydan Gwyrdd Cymru

**Gwahoddiad i gwrdd â thîm Trydan**

**Ynni i ffynnu. Power to prosper.**




# Gwefr – Fferm Solar Larnog rhifyn 1

Mae Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan) yn eich gwahodd i ymgynghoriad anffurfiol i drafod cynlluniau ar gyfer Fferm Solar arfaethedig Larnog. Dewch draw i gwrdd â thîm y prosiect, gofyn cwestiynau a rhoi adborth.

**Dydd Llun 12 Ionawr 2026** | 3:00yp - 7:00yp
Clwb Hamdden a Chwaraeon Sili
Ffordd y De, Sili CF64 5SP

**Dydd Sadwrn 17 Ionawr 2026** | 9:30yb - 1:00yp
Neuadd Gymunedol Penarth Isaf
Brockhill Way, Penarth CF64 5QD

Gallwch hefyd weld y deunydd ymgynghori a llenwi ffurflen adborth ar ein gwefan. Ar gyfer cam hwn yr ymgynghoriad, rhaid i'r holl adborth ein cyrraedd erbyn **5yp ddydd Gwener 23 Ionawr 2026.**

*Defnydd trydan domestig cymedrig yn ôl gwlad/rhanbarth. Source: DESNZ Subnational Electricity and Gas Consumption Statistics Regional and Local Authority, Great Britain, 2022. (https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65b12dfff2718c000dfb1c9b/subnational-electricity-and-gas-consumption-summary-report-2022.pdf)

- Hyd at 35 MW o drydan gwyrdd, digon i bweru 13,800 o gartrefi cyffredin yng Nghymru*
- Cysylltiad grid tanddaearol ag Is-orsaf Gynradd Penarth
- Prosiect sy'n cael ei ddatblygu gan Trydan ar dir sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru
- Elw yn ôl i'r pwrs cyhoeddus
- Cyfleoedd i'r gymuned leol gymryd rhan a sicrhau budd
- Trydan glân – a fydd yn helpu i sicrhau dyfodol ein ynni a mynd i'r afael â newid hinsawdd
- Cyflwynir cais cynllunio i Gyngor Bro Morganwg

## Amserlen ddangosol

| 2025/2026 | Rhag 2025 - Ion 2026 | Dechrau 2026 | Haf 2026 | Hydref 2026 | 2027 | 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol | Adolygu'r adborth / arolygon safle pellach | Ymgynghoriad cyn ymgeisio | Cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bro Morgannwg | Penderfyniad cynllunio gan Gyngor Bro Morgannwg | Adeiladu a gweithredu |

www.trydanlarnog.cymru | croeso@trydanlarnog.wales | 029 2003 8780




## Gwella natur

Byddwn yn mynd ati i wella bioamrywiaeth ar draws y safle. Rydym yn archwilio cyfleoedd i wella cynefinoedd presennol a chreu cynefinoedd newydd i gefnogi poblogaethau lleol o adar, ystlumod, gwenyn, pryfed a mamaliaid. Byddem wrth ein bodd yn clywed eich syniadau ar sut y gallwn gyflawni ein dyletswydd i wella bioamrywiaeth.

## Gwella mynediad

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i wella mynediad a chysylltedd ar draws y safle. Bydd hyn yn cynnwys cynnal a chadw llwybrau troed cyhoeddus am oes y prosiect a diogelu amwynder Llwybr Arfordir Cymru.

---

## Improving nature

We will actively improve biodiversity across the site. We are exploring opportunities for improving existing habitats and creating new habitats to support local populations of birds, bats, bees, insects, and mammals. We'd especially love to hear your ideas on how we can fulfil our duty to improve biodiversity.

## Improving access

We will explore opportunities for improving access and connectivity across the site. This will include retaining and maintaining public footpaths for the life of the project and protecting the amenity of the Wales Coastal Path.

**Fferm Solar Larnog Solar Farm**

**Dyluniad rhagarweiniol – Rhagfyr 2025 / Preliminary design – December 2025**




## Trydan – uchelgeisiau mawr i Gymru

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy newydd sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru a darparu buddion i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ein huchelgais yw datblygu 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd erbyn 2040. Fferm Solar Larnog yw ein prosiect solar cyntaf ac mae'n gam pwysig ar y daith honno.

## Trydan – big ambitions for Wales

Trydan Gwyrdd Cymru is a new renewable energy developer wholly owned by the Welsh Government, with a mission to unlock the renewable energy potential of Wales and deliver benefits to everyone living and working in Wales today and for future generations. Our ambition is to develop 1 GW of new renewable energy generation capacity by 2040. Larnog Solar Farm is our first solar project and an important step on that journey.

www.trydangwyrddcymru.wales
croeso@trydangwyrddcymru.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**